CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Tîm Gofal a Chymorth

Teitl y Swydd:	**Gweithiwr Cymdeithasol**
Rhif y Swydd:	**CHL0503**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**HAYCSS034**
Gwasanaeth:	**Gwasanaethau Plant**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Gogledd Powys – Y Drenewydd neu Y Trallwng**

mae hon yn swydd gweithiwr hyblyg ac felly mae'r Cyngor yn cynnig cyfle i weithio'n ystwyth, gan gynnwys gweithio gartref

Graddfa:	**Graddfa 11** **Pwynt 30 i Bwynt 32** **£42,123 i £44,253 y flwyddyn** **£21.83 i £22.93 yr awr**

Mae premiwm ychwanegol yn y farchnad yn berthnasol i Thimau Gofal a Chymorth, Gofal Drwy'r Broses ac Asesu - bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfweliad

Oriau'r contract:	**37 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Rheolwr Tîm**
Cyfrifoldeb dros:	Neb

Crynodeb

Am y rôl:

Mae gwaith y Tîm Gofal a Chymorth yn canolbwyntio ar blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd lle bu asesiad Gwaith Cymdeithasol a lle mae angen gwasanaethau ychwanegol arnynt. Gallai hyn gynnwys plant sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth, neu deuluoedd sy'n rhan o'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus neu mewn achosion llys. Mae gan y tîm, sy'n cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Lles profiadol, ystod amrywiol o sgiliau. Yn ddyddiol, mae'r tîm yn cael cefnogaeth dda gan ddau Gydlynydd Tîm, sy'n cynorthwyo gyda nifer o dasgau, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd a chofnodi trafodaethau, paratoi cronolegau, a darparu cymorth gweinyddol cyffredinol arall. Fel tîm rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol a dilyniant gyrfa pob aelod o'r tîm ar gael. Mae'r Tîm Maethu yn goruchwylio pob agwedd ar y rôl maethu o recriwtio a chadw gofalwyr maeth prif ffrwd, ynghyd ag asesu a chefnogaeth ffrindiau a theulu sy'n maethu. Mae gan weithwyr cymdeithasol sy'n goruchwylio llwythi

achosion y gellir eu rheoli, maen nhw'n cael cyfnod sefydlu cadarn, ac yn derbyn goruchwyliaeth adlewyrchol reolaidd, yn ogystal â chefnogaeth a mentora ychwanegol pan fo angen.

Amdanoch chi:

Byddwch yn gallu darparu cefnogaeth briodol i blant a theuluoedd, gan ddefnyddio eich brwdfrydedd a'ch cymhelliant i hyrwyddo canlyniadau llwyddiannus.
• Byddwch yn fedrus ac yn hyderus yn eich cyfathrebu ag eraill er mwyn cynnal ymgysylltiad â theuluoedd mewn amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys lle mae gelyniaeth a risg.
• Byddwch yn greadigol yn eich gwaith gyda phlant ac yn mabwysiadu'r defnydd o offer i'w hannog i rannu eu dymuniadau a'u teimladau.
• Bydd angen ystod eang o wybodaeth a sgiliau arnoch i nodi'r ystod lawn o risgiau i blant a helpu i reoli'r risgiau hynny; sicrhau bod ymyrraeth gymesur ac amserol yn cael ei ddarparu. Helpu i adeiladu cydberthynasau teuluol a nodi rhwydweithiau cymorth unigolion.
• Bydd angen i chi fabwysiadu model ymyrraeth sy'n seiliedig ar gryfderau a byddai profiad o ddefnyddio'r model hwn yn ddymunol.

Eich dyletswyddau:

Darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol i blant a phobl ifanc unigol gyda'r bwriad o'u cadw'n ddiogel a'u galluogi i gyflawni eu potensial llawn o fewn lleoliad sy'n darparu parhad cyfreithiol.
• Gweithio fel rhan o dîm, gan ymgymryd â thasgau ar sail gylchdro dyletswydd, a chyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol.
• Meithrin a chynnal cydberthynasau gwaith da gyda chydweithwyr a phartneriaid sy'n galluogi'r tîm i weithio'n effeithiol.
• Nodi materion risg mewn perthynas ag amgylchiadau plant unigol, a sicrhau bod mesurau diogelu ar waith er mwyn lleihau'r risg

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu â
Bernie O'Brien
recruitment@powys.gov.uk

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

Un grŵp o staff o fewn y sector gofal cymdeithasol yw Gweithwyr Cymdeithasol. Yn bennaf trwy Weithwyr Cymdeithasol y bydd Awdurdodau Lleol yn cyflawni eu goblygiadau statudol o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac eraill.

Diben cyffredinol y swydd Gweithiwr Cymdeithasol o fewn Gwasanaethau Plant yw asesu, asesu risg a chyflwyno gwasanaeth i blant a'u teuluoedd, gan gadw plant o fewn eu teuluoedd, lle bo hynny'n bosibl. Mewn sefyllfaoedd lle na ellir rheoli'r risg, bydd angen datblygu cynlluniau i gadw plant yn ddiogel ac i allu cyflawni eu potensial llawn. Wrth wneud hyn, rhaid i'r Gweithiwr Cymdeithasol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, ynghyd â Pholisïau a Gweithdrefnau Cyngor Sir Powys.

Cyflwyno gwasanaeth gwaith cymdeithasol i blant a phobl ifanc unigol gyda'r bwriad o'u cadw'n ddiogel a'u galluogi i gyflawni eu potensial llawn o fewn lleoliad sy'n cynnig parhauster cyfreithiol.
Gweithio fel rhan o dîm, gan gyflawni tasgau ar sail dyletswydd gyda rota, a chynnig gwaith llanw ar gyfer cydweithwyr sy'n absennol.

Meithrin a chynnal perthnasoedd gwaith da gyda chydweithwyr a phartneriaid sy'n galluogi'r tîm i weithio'n effeithiol.

Dynodi ffactorau risg o ran amgylchiadau plant unigol, a sicrhau fod diogelu ar waith er mwyn lleihau'r risg.

- Caiff anghenion unigolion a'u gofalwyr eu hasesu'n holistaidd, gan drafod, monitro ac adolygu pecynnau gofal.

- Caiff peryglon i unigolion ac eraill eu hasesu a'u cydbwyso mewn modd sy'n hybu annibyniaeth y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'u gofalwyr.

  - Gwneir penderfyniadau ar sut i ddyrannu adnoddau prin.
  - Bydd cyfle cyfartal a pharch i amrywiaeth a gwahaniaeth yn cael ei hybu.
  - Bydd cynnwys pobl ynysig a diamddiffyn yn gymdeithasol yn cael ei hybu.
  - Bydd cam-drin oedolion a phlant diamddiffyn yn cael ei ymchwilio.
  - Bydd cydweithio a gwaith amlddisgyblaethol ag asiantaethau eraill yn cael ei atgyfnerthu.
  - Atebolrwydd dros yr hyn a wnânt trwy gofnodi penderfyniadau yn effeithiol ac yn fanwl-gywir.

  - <u>Galluogi mynediad at Wasanaethau Cymdeithasol</u>

    - Bod yn rhan o drafodaeth strwythuredig â'r rheiny sy'n gwneud ymholiadau cychwynnol i'r gwasanaeth, a gwerthuso unrhyw wybodaeth a roddir.
    - Rhoi gwybodaeth, cyngor a/neu atgyfeirio i wasanaethau eraill.
    - Cymhwyso meini prawf trothwy'r gwasanaeth i wneud arfarniadau o ran a yw atgyfeiriad yn briodol ai peidio.
    - Gwerthuso pa mor frys yw'r ymateb sy'n ofynnol i'r atgyfeiriad sicrhau bod materion a all olygu risg sylweddol o niwed yn cael eu cynyddu'n gyflym at lefel y Rheolwr Tîm.
    - Blaenoriaethu atgyfeiriadau.
    - Gwneud ymholiadau cychwynnol e.e. asiantaethau eraill, cysylltiadau.
    - Cofnodi gwybodaeth atgyfeirio yn fanwl-gywir ac yn llawn, yn unol â gweithdrefnau'r adran.
    - Sicrhau bod gwybodaeth atgyfeirio yn cael ei drosglwyddo'n brydlon, yn unol â gweithdrefnau ac amserlen yr adran.
    - Diogelu lles rhywun diamddiffyn sydd â risg uniongyrchol o ddioddef niwed.

  - <u>Asesu'r angen</u>

    - Gwerthuso natur anghenion posibl ar sail gwybodaeth yn deillio o'r atgyfeiriad a chofnodion blaenorol.
    - Gwneud ymholiadau e.e. cysylltiad rhyngasiantaethol.
    - Diogelu lles unigolyn diamddiffyn sydd â risg o ddioddef niwed.
    - Trefnu apwyntiadau a/neu ymweliadau asesu mewn ffordd amserol.

- Bod yn rhan o waith uniongyrchol gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwr/gofalwyr i gynnal asesiad.
- Datblygu perthnasoedd cadarn gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n galluogi deall eu safbwyntiau a'u cynnwys yn llwyr wrth ddatblygu cynlluniau.
- Sicrhau fod materion risg sylweddol na ellir eu rheoli ar unwaith trwy weithredu cynllun yn cael eu cynyddu at lefel y Rheolwr Tîm i'w hystyried ymhellach.
- Cynnal archwiliadau dan adran 47 Deddf Plant 1989 (Cymru) a rhoi cynlluniau ar waith er mwyn rheoli canlyniad yr archwiliadau hynny..
- Trwy weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn ceisio gwella'u gallu i ddatrys problemau mewn dull sy'n cefnogi annibyniaeth a dewis cymaint â phosibl.
- Cytuno ar amrediad yr anghenion gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwr/gofalwyr.
- Ar y cyd â defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, ystyried y dewisiadau gorau i gyflawni'r anghenion y cytunwyd arnynt a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Mabwysiadu dull creadigol a holistig ac edrych yn fanwl ar y dewisiadau ar yr un pryd.
- Ceisio sicrhau bod cymaint o adnoddau ariannol ac ymarferol â phosibl ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth o bob ffynhonnell bosibl.
- Cofnodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu.
- Casglu darganfyddiadau'r asesu at ei gilydd a chwblhau'r ddogfennaeth asesu yn unol â chanllawiau statudol, deddfwriaeth a gweithdrefnau ac amserlen yr adran.
- Paratoi adroddiadau i'r llys ac adroddiadau eraill yn y diwyg gofynnol.
- Sicrhau bod y dasg o gofnodi'r ffeil wedi'i gwblhau yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r adran.
- Cynnull a/neu fynychu cyfarfodydd / cysylltiadau rhyngasiantaethol, e.e. cynadleddau achos.

- <u>Cynllunio a rheoli gofal</u>

- Cytuno â'r defnyddiwr gwasanaeth a'r gofalwr/gofalwyr ynghylch y canlyniadau dymunol.
- Cytuno â'r defnyddiwr gwasanaeth a'r gofalwr/gofalwyr ar amrediad o wasanaethau i ddiwallu anghenion.
- Sicrhau bod y rheolwyr yn cytuno â'r cynllun, a chofnodi hyn ar WCCIS.
- Cytuno ar adnoddau gyda darparwyr gwasanaeth i ddiwallu anghenion.
- Cofnodi a chylchredu'r cynllun Gofal a Chefnogaeth neu Gynllun Llwybr yn unol â gofynion statudol, deddfwriaeth a gweithdrefnau'r adran.
- Cwblhau dogfennau comisiynu/ contractio yn unol â pholisi ac amserlenni'r adran.
- Sicrhau bod cofnodion sy'n cael eu cadw ar ffurf electronig yn cael eu cwblhau a'u/neu'u diweddaru yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r adran.
- Cynnull a/neu fynychu cyfarfodydd / cysylltiadau rhyngasiantaethol e.e. cynadleddau achos, cyfarfodydd cynllunio, Cyfarfodydd Cynllunio Cyfreithiol, arolygon Plant mewn Gofal.
- Bod yn rhan o'r prosesau ac ymweliadau statudol i hybu a diogelu lles plant a / neu oedolion diamddiffyn, a gwneud hyn o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol.
- Yn ogystal â rheoli gofal ar sail gwaith achos unigol, chwarae rhan bwysig yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn y dasg o lunio gwasanaethau.

- Sicrhau fod cynllun sefydlogrwydd yn cael ei ystyried yn weithgar ar gam cynnar yn y broses ac yn barhaus tan y gellir dod i gytundeb ar gynllun sefydlogrwydd clir.
- Sicrhau fod materion megis Camfanteisio Rhywiol ar Blant, Caethwasiaeth Fodern ac unrhyw faterion perthnasol eraill yn cael eu hadolygu'n gyson o ran plant unigol i sicrhau fod cynlluniau yn gallu cael eu rhoi ar waith i reoli unrhyw faterion sy'n codi.
- Cynnull a chadeirio cyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd i adolygu cynlluniau i blant a sicrhau eu bod yn effeithiol wrth ostwng risg a gwella amgylchiadau'r plentyn.
- Cymryd rhan mewn proses drosglwyddo effeithiol i gynnwys trafodaeth ar lafar, i symud cyfrifoldeb am achos i dîm arall.
- Cynnal asesiadau o Unigolion Perthynol o ran Rheoliad 26 neu gais am Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig posibl.

- <u>Monitro ac adolygu darpariaeth</u>

- Cysylltu â gweithwyr proffesiynol a chysylltiadau eraill i sicrhau bod y cynllun gofal yn parhau i fod yn briodol.
- Mewn achos lle nad yw'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth, mynd ati'n weithgar i ystyried camau pellach er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi a gohirio ar gyfer y plentyn.
- Cysylltu yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr/gofalwyr i ddiweddaru'r asesiad gofal.
- Sicrhau bod y gwaith o gofnodi'r ffeil achos yn cael ei gwblhau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r adran.
- Trefnu a chydlynu'r adolygiad o'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth neu Gynllun Llwybr.
- Cysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth/ teuluoedd/ gofalwyr wrth adolygu'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth neu Gynllun Llwybr a chytuno ar newidiadau lle bo angen.
- Trafod â'r darparwyr a'r asiantaethau eraill perthnasol unrhyw newidiadau i'r cynllun, a chytuno arnynt.
- Cwblhau dogfennaeth yr adolygiad yn unol â pholisïau ac amserlen yr adran.
- Sicrhau bod y gwaith o gofnodi'r ffeil achos yn cael ei gwblhau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r adran.
- Sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno a'r Cynnig Eiriolaeth Gweithredol.
- Annog cyfranogiad gweithgar gan blant a phobl ifanc yn eu harolwg statudol Plant mewn Gofal, neu mewn Grwpiau Craidd.
- Sicrhau fod yr holl gynlluniau a recordiadau achos yn adlewyrchu safbwyntiau a theimladau'r plentyn neu unigolyn ifanc hwn.
- Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol pobl eraill trwy weithredu fel goruchwyliwr ar y safle, neu aseswr i'r myfyrwyr sy'n dilyn hyfforddiant proffesiynol.

- <u>Rheoli Llwyth Gwaith</u>

- Gweinyddu pob agwedd ar y llwyth achosion yn brydlon er mwyn sicrhau bod y llwyth achosion sy'n cael ei gofnodi yn adlewyrchu'n deg y gwaith sy'n cael ei wneud.
- Paratoi a chynnal goruchwyliaeth broffesiynol gyda'r Rheolwr Atebol.

- Sefydlu a chynnal perthynas gweithio da â chydweithwyr.
- Pennu meysydd ar gyfer datblygu proffesiynol a hyfforddi a mynd i'r afael â hwy.
- Gweithio oriau hyblyg, o fewn rheswm, ac yn unol ag anghenion y gwasanaeth.
- Cydymffurfio â pholisïau iechyd a diogelwch priodol, hyrwyddo arfer diogel a rheoli risg yn y gwaith.

- <u>Cynnal datblygiad proffesiynol</u>

- Dangos Datblygiad Proffesiynol Parhaus gan gynnwys cyflawni gofynion Cyngor Gofal Cymru er mwyn sicrhau cofrestriad parhaus fel Gweithiwr Cymdeithasol.Sicrhau fod y Cofrestriad fel Gweithiwr Cymdeithasol dan Ofal Cymdeithasol Cymru yn parhau yn gyfredol ac yn ddiweddar.
- Rhannu sgiliau a gwybodaeth â chydweithwyr sy'n arbenigwyr mewn meysydd eraill.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm â'r swydd, bydd y swydd rydych yn ymgeisio amdani yn dod o dan y Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013).

Mae gan y swydd hon ofyniad am Wiriad Manylach y DBS. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd rheoleiddiedig dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych yn ymgeisio amdani o dan amodau Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Efallai y bydd angen gwiriad Diogelwch Personél Sylfaenol (BPSS) ar gyfer y swydd hon.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithio â'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch

Datganiad Cydraddoldebau:

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir hwy ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad ar ôl cymhwyso.
- Profiad o gynnal asesiadau o anghenion a nodi'r risgiau.

Gwybodaeth

Hanfodol

- Gwybodaeth am anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol ac arferion gorau sy'n berthnasol i'r swydd.
- Gwybodaeth am anghenion gofal cymdeithasol plant a theuluoedd.

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Cymhwyster gwaith cymdeithasol priodol (h.y. Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW neu gyfwerth).
- Wedi cofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol gyda CCW/HCPC.

Sgiliau

Hanfodol

- ar lafar.
- Sgiliau TG da.
- Gallu i drefnu, blaenoriaethu a rheoli llwyth achosion.
- Gallu dangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu.
- Ymrwymiad i'r egwyddor o gyfrinachedd.
- Rhaid meddu ar wybodaeth ac ymrwymiad i egwyddorion gofal cymdeithasol fel yr ymgorfforir mewn deddfwriaeth berthnasol.

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Trwydded yrru gyfredol neu'r gallu i deithio'n helaeth o amgylch y sir.

.

Rheolwr recriwtio: Cath Hogan
Tachwedd 2018

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.

- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 23/11/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 24/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 11/12/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.